# Plant Ddoe



## Quarry Bank, 1897

## Dirgelwch y Mwg



© BBC

# Y STORI

Mae'r dirgelwch wedi'i osod yn 1897 yn Quarry Bank yn ystod Jiwbilî Ddiemwnt y Frenhines Fictoria.

Mae cwpan Jiwbilî arbennig Lizzie wedi mynd ar goll. Lle gall hi fod? Mae'n rhaid bod rhywun wedi ei dwyn...ond pwy?

# GWEITHDY



Fel arfer, roedd gan hoelwyr weithdy yng nghefn eu tŷ. Roedden nhw'n llefydd tywyll, poeth, llawn llwch. Roedd yn rhaid rhoi'r haearn yn y tân er mwyn iddo fod digon poeth i'w guro i mewn i siâp. I wneud hoelen roedd yn rhaid curo un ochr yn bwynt miniog. Yna, roedden nhw'n defnyddio morthwyl trwm o'r enw 'oliver' i guro'r ochr arall yn fflat. Roedd yn waith budur a chaled.

# EITEMAU



Roedden nhw'n prynu rhodenni haearn hir o warysau i wneud hoelion. Weithiau roedden nhw'n anfon plant i nôl y rhodenni trwm a'u cario adref.

Roedd hoelion o bob math i'w cael ond roedd y rhai mwyaf cyffredin yn cael eu gwneud mewn ffatrïoedd, felly roedd hi'n anodd gwneud bywoliaeth o hoelion. Roedd gan lawer o'r dynion swyddi eraill tra roedd eu gwragedd a'u plant yn dal i wneud hoelion i gael arian ychwanegol.



I dorri a morthwylio rhodenni haearn yn hoelion, rhaid



© BBC

cynhesu'r haearn nes ei fod yn grasboeth. Dydy tân arferol ddim yn ddigon poeth felly mae'n rhaid chwythu aer drwy'r tân i'w wneud yn llawer poethach. Roedden nhw'n defnyddio megin i wneud hyn. Byddai plant yn gwneud hyn cyn ac ar ôl ysgol. Roedd yn rhaid iddyn nhw helpu er mwyn i'r teulu allu gwneud digon o arian i fyw.



Can tê ydy hwn, roedd gan lawer o hoelwyr un. Roedd yn rhaid yfed lot achos ei fod yn waith mor boeth. Roedd tê yn rhatach na chwrw ac, os oedd lot o siwgr ynddo, roedd yn rhoi mwy o egni iddyn nhw. Roedd merched fel mam Lizzie'n gweithio'n galed - 12 awr neu fwy fel arfer. Roedd hi'n anodd iawn achos roedden nhw hefyd yn gorfod coginio, glanhau a golchi.



Ddim basged i gadw'r golch oedd y fasged hon, ond basged ar gyfer babi. Doedd menywod oedd yn gwneud hoelion ddim yn gallu fforddio peidio gweithio, hyd yn oed pan oedden nhw'n magu babi. Felly, roedden nhw'n cadw'r babi wrth eu hymlau yn y fasged olch tra roedden nhw'n gweithio. Roedden nhw'n gallu cadw llygad ar y babi a gwneud hoelion yr un pryd. Roedd basged olch yn rhatach i'w phrynu na chrud.



Pam trio gwneud dol allan o hen esgid a darnau o glytiau? Achos doedd gan bobl ddim digon o arian i brynu teganau. Roedd talu am fwyd a rhywle i fyw yn llawer pwysicach. Felly roedd plant yn dysgu gwneud teganau allan o beth bynnag oedd ganddyn nhw. Oedd y ddol hon wedi cael ei gwneud fel anrheg i rywun - ar gyfer chwaer fach efallai? Os felly, mae'n llawer mwy na hen esgid. Mae'n atgof arbennig i rywun



© BBC

## TYSTION



"Druan â Lizzie. Roedd hi ar ben ei digon pan ddaeth hi â'r gwpan Jiwbilî 'na yn ôl o'r ysgol ddoe.

Wedyn, aeth hi'n drist -  yn meddwl am ei chwaer fach, Nellie. Dim ond cwpwl o wythnosau sydd ers iddi farw - yn 5 mis oed.

'Chi'n gwybod, Mam' meddai hi. 'Dw i wrth fy modd gyda'r gwpan 'ma  - ond taswn i ond yn gallu cael Nellie'n ôl - fe fydden i'n rhoi'r gwpan iddi.'

Fe dorrodd hynny fy nghalon i. Bore 'ma fe ddywedais i wrthi i roi'r gwpan ar silff y gegin i bawb gael ei weld.

Wedyn, fe fuodd Lizzie'n pwmpio'r fegin i fi tan amser cinio, ond yna fe wnes i ei hanfon hi i Ffair y Jiwbilî. Nes 'mlaen - es i i'r tŷ. Roedd y gwpan wedi mynd! Ond pwy allai fod wedi mynd â'r gwpan?

Yr unig un oedd wedi bod yn y tŷ oedd ffrind gorau Lizzie, Alice Bennett. Daeth hi i mewn a dweud bod ei mam hi'n gofyn am fenthyg hanner cwpan o fwstard tan ddydd Gwener. 'Mae e yn y gegin' meddai fi, 'helpa dy hun.'

Yna, fe glywes i Albert yn sŵn i gyd - yn ôl o'r dafarn. Synnwn i ddim taw fe sydd wedi mynd â'r gwpan. Ddim dyna fyddai'r tro cynta' iddo fe fynd â rhywbeth o'r tŷ a'i gyfnewid am jwg o gwrw neu faco. Dw i'n meddwl mai fe sydd wedi mynd â'r gwpan!

Fe â'i edrych eto yn y gegin. Rhag ofn mod i wedi colli rhywbeth.

## Y STORI

Gweithdy: Mae Elsie wedi darganfod bod cwpan Jiwbilî Lizzie ar goll. Mae Elsie'n poeni'n ofnadwy am Lizzie sydd yn drist iawn ar ôl i'w chwaer fach, Nellie, farw. Byddai Lizzie wedi hoffi rhannu'r gwpan gyda Nellie pe bai hi'n fyw.



© BBC

# CEGIN



Yr unig le i goginio yn y gegin yma oedd y lle tân mawr haearn, neu'r grât cegin. Y drysau bach naill ochr i'r grât ydy drysau'r ffwrn. Ar ben y ffwrn mae lle i degell neu sosban. Roedden nhw'n hongian bwyd o'r polyn uwch ben y grât a choginio dros fflamau'r tân. Dyma'r unig ffordd o goginio unrhyw beth, felly roedd yn rhaid cadw'r tân i fynd drwy'r adeg.

# EITEMAU



Roedd teuluoedd hoelwyr yn ofalus o bob ceiniog, yn enwedig os mai'r wraig oedd yr unig weithiwr. Bwyd, glô a rhent oedd ar dop y rhestr. Dim ond os oedd arian ar ôl fydden nhw'n prynu unrhyw beth arall. Achos bod bywyd mor anodd, roedd rhai o'r dynion yn mwynhau ysmygu baco neu yfed cwrw. Bydden nhw'n gwneud unrhyw beth i gael arian ar gyfer rheini, hyd yn oed pan oedd y wraig a'r plant yn dioddef.



Roedd bara yn cadw teuluoedd tlawd yn fyw. Doedd ganddyn nhw ddim llawer o arian felly roedden nhw'n prynu bwydydd rhad oedd yn eu llenwi. Bara oedd orau achos roeddech chi'n gallu ei fwyta gydag unrhyw bryd. Pan oedd pethau'n dda roeddech chi'n ei fwyta gyda stiw poeth neu wy a chig moch. Pan oedd pethau'n galed roeddech chi'n ei fwyta ar ei ben ei hun. Trît bach rhad i'r plant fyddai bara menyn ffres a siwgr.




© BBC



Roedd teuluoedd hoelwyr yn defnyddio canhwyllau neu lampau olew i oleuo'r tŷ. Roedd lampau olew yn beryg iawn. Os oedd lamp yn cael ei tharo drosodd gallai'r paraffîn ynddi fynd ar dân. Weithiau, roedd lamp olew yn mynd ar dân hyd yn oed pan oedd wrthi'n cael ei diffodd. Roedd nifer o bobl yn cael eu llosgi neu eu lladd yn y tanau hyn. Roedd gan deuluoedd mwy cyfoethog lampau nwy, ond doedd gan bron neb oleuadau trydan.



Tocyn Fogger ydy hwn. Deliwr haearn answyddogol oedd y Fogger oedd yn cymryd mantais o bobl dlawd. Roedd Fogger yn gwerthu rhodenni haearn i hoelwyr yna'n prynu'r hoelion roedden nhw'n eu gwneud yn ôl oddi wrthyn nhw. Ond roedden nhw'n talu mewn tocynnau. Dim ond yn siop y Fogger roedden nhw'n gallu defnyddio'r tocynnau ac roedd popeth yn costio llawer mwy yno. Roedd y Fogger yn twyllo'r hoelwyr i roi arian iddo.




Roedd bach o fwstard yn gwneud bwyd yn fwy blasus. Roedden nhw'n defnyddio mwstard hefyd i wneud bath mwstard. Roedd gorwedd mewn bath mwstard yn helpu i leddfu unrhyw boenau. Roedd hynny'n rhatach na thalu am ddoctor neu brynu meddyginiaeth. Cafodd y tun hwn ei brynu yn y Co-op - siop oedd wedi'i sefydlu gan weithwyr ddaeth at ei gilydd i ddechrau eu siopau eu hunain. Roedden nhw'n ceisio gwerthu popeth yn rhatach na siopau'r Foggers.

## TYSTION



"Druan ag Elsie. Mae'n rhaid iddi weithio drwy ddathliadau'r Jiwbilî. Rydw i'n trio helpu cymaint â phosib drwy gyfri faint o arian sydd gyda ni am yr wythnos. Ond mae'n anodd



© BBC

canolbwyntio gyda'r holl sŵn 'ma…

| | |
|---|---|
| Rhent | 2s.6c |
| Tanwydd i'r efail | 1s.6c |

Beth ydw i wedi'i anghofio?

| | |
|---|---|
| Olew i'r lamp | 2c |
| Sebon | 3c |
| Manion | 3c |

Mae Elsie'n poeni. Mae'n dweud bod cwpan Jiwbilî Lizzie wedi mynd ar goll. Fe fydd hi'n torri'i chalon pan ddaw hi i wybod. O, does dim rhaid gofyn pwy gaiff y bai am hyn. Fi - Albert Smith! Ond fydden i ddim yn meiddio mynd â chwpan fy merch - mae'n meddwl y byd o'r gwpan 'na.

O'r gorau, dw i wedi mynd â phethau yn y gorffennol, wrth gwrs - a chael ceiniog dda amdanyn nhw. Pam ddim? Wnes i ddim gofyn am gael fy mrifo lawr yn y pwll. Na! A phwy na fyddai am gael jwg neu ddau o gwrw ac ysmygu baco bob hyn a hyn gyda'r boen sydd gen i? Ond ddim fi aeth â chwpan Lizzie! Ro'n i yn y Red Lion.

Ddwedai wrthoch chi pwy welais i pan ddes i yn ôl am damaid o fara a chaws - yr Alice Bennett 'na. Fe welais i hi'n rhedeg allan o'r tŷ a diflannu i lawr y stryd. Fe allai hi fod wedi dwyn y gwpan yn hawdd. Lle ro'n i?

| | |
|---|---|
| Margarîn | 1s |
| Caws | 5c |

Dyna'r cwbl dwi'n meddwl, ar wahân i gwrw… a baco wrth gwrs… dyna 3c arall… mae hi yn Jiwbilî wedi'r cyfan."

## Y STORI

Gweithdy: Mae Elsie wedi darganfod bod cwpan Jiwbilî Lizzie ar goll. Mae Elsie'n poeni'n ofnadwy am Lizzie sydd yn drist iawn ar ôl i'w chwaer fach, Nellie, farw. Byddai Lizzie wedi hoffi rhannu'r gwpan gyda Nellie pe bai hi'n fyw.

Cegin: Mae tad Lizzie, Albert, yn mynnu mai ddim fe sydd wedi mynd â chwpan y Jiwbilî. Fyddai e byth yn dwyn oddi ar ei ferch ei hun.



© BBC

# YSTAFELL YSGOL



Roedd plant yn eistedd mewn rhesi wrth ddesgiau yn wynebu'r bwrdd du a'r athro. Mewn ysgolion bach, roedd plant o bob oed yn cael eu dysgu yn yr un dosbarth. Roedd y rhai ieuengaf yn eistedd yn y blaen a'r rhai hynaf yn eistedd yn y cefn. Ond weithiau, mewn ysgolion mawr, roedd 50 o blant mewn un dosbarth. Roedd desg yr athro'n uwch er mwyn iddo weld pawb yn gweithio.

## EITEMAU



Roedd yr athro'n ysgrifennu faint o blant oedd yn yr ysgol bob diwrnod ar y bwrdd presenoldeb. Roedd plant rhwng 5 ac 11 oed fod i ddod i'r ysgol. Ond, roedd mamau nifer o'r plant yn eu cadw adref i helpu gyda'r gwaith neu i edrych ar ôl brodyr a chwiorydd bach. Roedd ffrind Lizzie, Alice, yn gorfod aros adref yn aml.

Roedd ysgol yn dechrau am 9 ac yn gorffen am 4.30 gyda 2 awr am ginio...



Doedd gan ddisgyblion ddim llyfrau felly roedd yr athro'n ysgrifennu popeth mewn sialc ar y bwrdd du. Roedd yn rhaid copïo'r gwaith o'r bwrdd du ac roedd pawb yn gwneud yr un gwaith ar yr un pryd. Ar ôl gorffen roedd yr athro'n glanhau'r bwrdd du ac yn ysgrifennu'r gwaith nesaf arno. Doedd y plant ddim yn dysgu cymaint o bynciau â chi nawr. Fel arfer roedden nhw'n dysgu darllen ac ysgrifennu ac ychydig o fathemateg.



© BBC



Cliciwr pren ydy hwn. Roedd yn gwneud sŵn uchel wrth bwyso'r handlen. Roedd rhai athrawon yn ei ddefnyddio i gael sylw yn y dosbarth, neu i gadw amseriad pan fyddai'r plant yn dweud eu tablau gyda'i gilydd. Ar wahân i'w tablau, roedd yn rhaid i blant gofio cerddi a rhestrau hir, fel enwau Brenhinoedd a Breninesau Lloegr neu Lyfrau'r Beibl.



Cansen ydy hon. Roedd athrawon yn meddwl y dylai plant weithio'n dawel. Os oedd rhywun yn siarad heb ganiatâd, yn camymddwyn neu'n hwyr i'r ysgol, roedden nhw fel arfer yn cael eu cosbi. Y gansen oedd y gosb waethaf. Roedd yr athro yn eich taro ar eich dwylo, ar gefn eich coesau neu ar eich pen ôl. Roedd yn brifo'n ofnadwy ond roedd rhai o'r plant yn dal yn ddrwg yn y dosbarth.



Cafodd rhai o'r plant gwpanau fel hyn fel anrheg arbennig i gofio Jiwbilî Ddiemwnt y Frenhines Fictoria. Yn lle cwpan roedd plant mewn ardaloedd eraill yn cael medalau neu hyd yn oed duniau bisgedi. Roedd plant fel Lizzie Smith yn dod o deuluoedd tlawd iawn. Doedd ganddyn nhw ddim llawer o bethau eu hunain felly roedd cael cwpan Jiwbilî yn rhywbeth pwysig iawn iddyn nhw.

## TYSTION



“Fe wnes i roi cwpanau'r Jiwbilî i'r plant ddoe. Syniad ardderchog. Rhywbeth i'r plant ei drysori. ‘Byddwch yn ddiolchgar, blant,’ meddai fi, ‘Rhaid i chi edrych ar eu holau nhw.’ Dwi'n meddwl y byddan nhw. Does dim byd arall o werth gan y



© BBC

rhan fwyaf ohonyn nhw.

Wrth gwrs, dydy hi ddim yn iawn i bobl gael rhywbeth heb wneud dim byd. Wedi'r cyfan – 'Mae gwaith caled yn talu ar ei ganfed.' Dyna pam roedd yn rhaid iddyn nhw basio prawf bach cyn cael eu cwpanau.

Fe wnaethon nhw i gyd basio. Ar wahân i un - Alice Bennett. Fe wnes i adael ei chwpan hi ar fy nesg. Does dim syndod ei bod hi wedi methu. Dydy hi byth yn yr ysgol. Mae ei mam hi'n ei chadw adref i edrych ar ôl ei brodyr a'i chwiorydd tra'i bod hi'n gwneud hoelion. Ond eto, fedrwn i ddim rhoi'r gwpan iddi - fyddai hynny ddim yn deg ar y gweddill.

Roedd hi'n drist iawn, yn amlwg - a'i ffrind Lizzie Smith. Roedden nhw ar yr iard ar ôl ysgol a Lizzie yn rhoi ei chwpan i Alice. 'Lizzie Smith,' meddai fi, 'Dydych chi ddim i fod i roi'r gwpan 'na i rywun arall.' 'Na, syr,' meddai hi. 'Dim ond gadael i Alice ei dal am funud oeddwn i.'

Wel, fe wnaeth hynny i fi feddwl. O'n i'n rhy galed ar y ferch? Wedi'r cyfan, ddim arni hi mae'r bai ei bod hi'n cael ei chadw o'r ysgol. Fe benderfynais fynd i nôl y gwpan iddi a'i rhoi iddi yn Ffair y Jiwbilî."

## Y STORI

Gweithdy: Mae Elsie wedi darganfod bod cwpan Jiwbilî Lizzie ar goll. Mae Elsie'n poeni'n ofnadwy am Lizzie sydd yn drist iawn ar ôl i'w chwaer fach, Nellie, farw. Byddai Lizzie wedi hoffi rhannu'r gwpan gyda Nellie pe bai hi'n fyw.

Cegin: Mae tad Lizzie, Albert, yn mynnu mai ddim fe sydd wedi mynd â chwpan y Jiwbilî. Fyddai e byth yn dwyn oddi ar ei ferch ei hun.

Ystafell ysgol: Mae cwpan y Jiwbilî ar y bwrdd. Alice sydd biau'r gwpan. Mae Mr Hadley wedi penderfynu rhoi cwpan i Alice wedi'r cyfan; ddim arni hi oedd y bai ei bod hi'n colli cymaint o ysgol.

## FFAIR Y JIWBILÎ



Roedd diwrnod Jiwbilî Ddiemwnt y Frenhines Fictoria yn



© BBC

ddiwrnod gwych, yn arbennig i blant. Ledled y wlad, roedd pobl yn dod at ei gilydd i ddathlu. Roedd yna rasys, gemau, cerddoriaeth a chanu a llawer o bethau i'w bwyta ac i'w hyfed. Yna, pan oedd hi'n tywyllu, roedd pobl yn cynnau coelcerth fawr gan oleuo'r awyr. Roedd yn ddiwrnod y byddai nifer o bobl yn ei gofio am weddill eu bywydau.

## EITEMAU



Fel arfer mewn dathliadau awyr agored Byddin yr Iachawdwriaeth fyddai'n darparu'r gerddoriaeth gan ddod ag Organ Gelwrn o'r enw 'Hyrdi-gyrdi'. Pan fyddech chi'n troi'r handlen byddai'r Organ Gelwrn yn chwarae tôn.

Roedd Byddin yr Iachawdwriaeth yn mynd i lefydd lle'r oedd llawer o bobl feddw a phobl dlawd. Roedden nhw'n cynnal eu gwasanaethau allan ar y stryd. Weithiau roedd pobl yn gofyn iddyn nhw chwarae emyn i rywun oedd yn arbennig iddyn nhw.



Pam oedd bath tun yn nathliadau'r Jiwbilî? Achos ei fod yn llawn lemonêd! Roedd llawer o bobl yn gwneud eu lemonêd eu hunain yn hytrach na'i brynu mewn poteli. Roedd yn rhatach ac yn blasu'r un mor dda. Ond i wneud digon ar gyfer torf fawr o bobl roedd angen rhywbeth mawr i'w ddal. Roedd bath tun y maint perffaith ac roedd gan y rhan fwyaf un achos doedd ganddyn nhw ddim ystafelloedd ymolchi.



Doedd pob un o ddathliadau'r Jiwbilî ddim yr un peth achos y bobl leol oedd yn penderfynu sut bydden nhw'n dathlu.

Ond roedd rasys bron ym mhob lle. Rasys rhedeg ar gyfer gwahanol oed, ac ar gyfer merched a bechgyn. Efallai y byddai ras neu ddwy ar gyfer yr oedolion ac efallai ras sach, ras ferfa a ras wy a llwy. Fel arfer byddai'r enillwyr yn cael gwobr neu'n cael dewis rhywbeth o'r Bwrdd Gwobrau.



© BBC



Fyddech chi'n hoffi melysion fel gwobr am ennill ras? Dydy e ddim yn swnio'n llawer ond doedd plant fel Lizzie ddim yn cael melysion yn aml, felly iddyn nhw roedden nhw'n rhywbeth arbennig. Roedd melysion o bob lliw a llun yn cael eu cadw mewn jariau a byddai'r siopwr yn eu pwyso i chi. Achos bod plant ddim yn eu cael nhw'n aml roedden nhw'n edrych ymlaen atyn nhw ac yn gwneud iddyn nhw bara am amser hir.



Roedd plant hoelwyr yn treulio mwy o amser yn gweithio nag yn chwarae. Doedd eu rhieni ddim yn gallu fforddio prynu teganau beth bynnag. Bydden nhw'n cael hwyl gyda theganau syml fel cylch neu farblis. Cylchoedd metel oedden nhw ac roeddech chi'n gweld pa mor bell allech chi eu rholio. Roedd gwahanol fathau o farblis ond marblis clai neu haearn fyddai gan blant tlawd. Roedd gan blant teuluoedd â digon o arian farblis gwydr hyfryd.

## TYSTION



“Annwyl Esgob,

Rwy'n gobeithio eich bod yn cadw'n iach. Rwy'n ysgrifennu o ddathliadau Jiwbilî Quarry Bank. Mae'n ddiwrnod i bawb fwynhau eu hunain. Pawb, hynny yw, sy'n gallu fforddio peidio gweithio am ddiwrnod. Dydy pawb ddim yn gallu - ond dw i'n credu bod y rhan fwyaf o'r plant yn cael amser da.

Mae'r awyrgylch yn anhygoel! Mae gemau a rasys, cerddoriaeth a chanu. Digon i'w fwyta, am newid, a llond bath o lemonêd cartref!

Mae'r rhan fwyaf o bobl yr ardal hon yn byw bywydau eithaf diflas, mae arna'i ofn. Maen nhw'n dlawd ofnadwy. Mae'n bechod mawr, ond maen nhw'n gwneud y gorau o bethau. Fe welais i Lizzie Smith ac Alice Bennett yn gynharach (merched ifanc o ddau deulu tlawd iawn) yn edrych yn hapusach nag ers amser



© BBC

maith. Mae'r ddwy'n ffrindiau mawr. Enillodd Alice un o'r rasys ond dw i ddim yn gwybod pa wobr ddewisodd hi. Yna fe welais i nhw draw yn y gwair hir yn pigo blodau gwyllt.

Er i mi weddïo ar Dduw, bu farw chwaer fach Lizzie ychydig wythnosau yn ôl. Mae wedi effeithio ar Lizzie druan. Fe glywais i fod Alice a Lizzie wedi gofyn i'r dyn hyrdi-gyrdi chwarae emyn i Nellie fach. Yna, fe redodd y ddwy draw at yr eglwys. Roedd gan Lizzie bwys o flodau gwyllt hyfryd ac roedd gan Alice gwpan Jiwbilî. Efallai mai dyna beth ddewisodd hi'n wobr am ennill y ras?

Ysgrifennaf atoch eto'n fuan, yn y cyfamser tangnefedd arnoch chi.

Yn gywir,
Y Parchedig William Manning"

## Y STORI

Gweithdy: Mae Elsie wedi darganfod bod cwpan Jiwbilî Lizzie ar goll. Mae Elsie'n poeni'n ofnadwy am Lizzie sydd yn drist iawn ar ôl i'w chwaer fach, Nellie, farw. Byddai Lizzie wedi hoffi rhannu'r gwpan gyda Nellie pe bai hi'n fyw.

Cegin: Mae tad Lizzie, Albert, yn mynnu mai ddim fe sydd wedi mynd â chwpan y Jiwbilî. Fyddai e byth yn dwyn oddi ar ei ferch ei hun.

Ystafell ysgol: Mae cwpan y Jiwbilî ar y bwrdd. Alice sydd biau'r gwpan. Mae Mr Hadley wedi penderfynu rhoi cwpan i Alice wedi'r cyfan; ddim arni hi oedd y bai ei bod hi'n colli cymaint o ysgol.

Dathliadau'r Jiwbilî: Tra bod y dref yn dathlu'r Jiwbilî, fe welodd y Parchedig Manning Lizzie ac Alice yn rhedeg tuag at y fynwent yn cario blodau gwyllt a chwpan y Jiwbilî.



© BBC

# BARN YR ARBENIGWR

Wrth edrych yn ôl ar y dystiolaeth, dw i'n credu mai'r cliwiau pwysicaf oedd:

A. Dyddiadur Elsie
B. Y nodiadau ar restr siopa wythnosol Albert
C. Llyfr ysgol Mr Hadley a
CH. Llythyr y Ficer at yr Esgob

Beth mae'r cliwiau yma'n dweud wrtha i?

Mae dyddiadur Elsie'n dweud bod Lizzie'n drist achos ei bod hi am rannu cwpan y Jiwbilî gyda Nellie.

Mae'r dyddiadur hefyd yn dweud ei bod hi'n amau Alice ac Albert, ond rydyn ni'n gwybod bod dim rheswm gan Alice i gymryd cwpan y Jiwbilî achos roedd Mr Hadley wedi rhoi ei chwpan ei hun i Alice.

Mae rhestr siopa Albert yn awgrymu mai ddim fe sydd wedi cymryd y gwpan.

Mae'r llyfr ysgol yn dweud bod Lizzie'n ddisgybl da felly doedd gan Mr Hadley ddim rheswm i'w chosbi drwy gymryd y gwpan oddi arni.

Wrth gwrs, allwn ni ddim bod 100% yn siwr beth ddigwyddodd i gwpan Jiwbilî Lizzie ond mae llythyr y Ficer at yr Esgob yn dweud beth ydy'r peth mwyaf tebygol ddigwyddodd. Dewch i ni gael gweld beth allai fod wedi digwydd...



© BBC



FICER: Doedd hi ddim yn anodd dod o hyd iddyn nhw. Ddim ar ôl i fi feddwl am y peth. Y pethau mwyaf amlwg oedd eu bod nhw wedi gofyn am emyn ac wedi pigo tusw o flodau gwyllt.



Ond fe ges i sioc eu bod nhw wedi eu rhoi mewn cwpan. Ond doedd dim fâs iawn ar y bedd. O, a ddim cwpan y Jiwbilî wnaeth Alice Bennett ei dewis fel gwobr - fe ddewisodd hi felysion - a'u rhannu nhw gyda Lizzie.



ELSIE SMITH: Dylwn i fod wedi gwybod. Roedd Lizzie wedi dweud o'r dechrau ei bod hi eisiau i Nellie gael y gwpan. Ro'n i'n gwybod na fyddai Alice erioed wedi cymryd y gwpan oddi ar Lizzie – dydy hi ddim yn ferch fel 'na.



Ond am Albert, mae hynny'n wahanol. Os ydy Albert eisiau jwg o gwrw – wel, fe wneith unrhyw beth. Dydy e ddim yn ddyn drwg yn y bôn ond ers iddo beidio gallu gweithio dydy e ddim wedi bod yr un peth. Dw i'n falch mod i'n anghywir amdano fe. Fydden i ddim wedi gallu maddau iddo fe.



ALBERT SMITH: Doedd neb yn fy nghredu i pan ddywedais i mai ddim fi oedd wedi mynd â chwpan Lizzie - ond ddim fi wnaeth - ac mae prawf i'w gael. Roedd y gwpan ganddi hi'r holl amser 'ma - er mwyn iddi ei rhoi ar fedd Nellie.



Iawn, ro'n i'n anghywir am Alice Bennett - ond fe allai hi fod wedi mynd â'r gwpan. Roedd y cyfle yno. Nawr mae'n siŵr y bydd rhywun yn ei dwyn o'r bedd! Gobeithio ddim - byddai hynny wir yn torri calon Lizzie fach.



© BBC